

Paratoi ar gyfer y gaeaf ar y fferm

Wrth i'r gaeaf prysur agosáu, mae'n bwysig iawn ichi ddechrau paratoi ar gyfer y gaeaf nawr a hynny er mwyn helpu i leihau'r effaith ar eich fferm ac i leihau'r perygl o rywbeth difrifol yn digwydd. Drwy wneud rhai newidiadau bach nawr, gallai hynny arbed amser, pryder ac arian yn y dyfodol. Isod, ceir cynghorion am yr hyn y dylech fod yn ei ystyried.

- Adolygu'ch polisïau yswiriant a gwneud yn siŵr eu bod yn eich diogelu rhag niwed a ddaw yn sgil tywydd garw/stormydd
- A yw'ch peiriannau wedi'u cynnal a'u cadw ac a oes digon o wrthrewydd ynddynt?
- A oes digon o le yn yr adeiladau i amddiffyn rhywfaint ar gerbydau hanfodol megis tractorau a beiciau cwad?
- A oes digon o gyflenwadau o olew tanwydd/gwresogi gennych ar gyfer y gaeaf?
- A oes cyflenwad digonol o fwyd gennych pe baech yn cael eich cau i mewn gan eira?
- A oes gennych digon o le i storio slyri dros y gaeaf?
- A ydych wedi ystyried lles y da byw drwy ystyried pethau megis deunydd gorwedd, dŵr ac adeiladau i aeafu dan do?
- A oes digon o gyflenwadau o fwyd gennych ar gyfer eich anifeiliaid dros y gaeaf?
- Nodi ardaloedd 'diogel' hawdd eu cyrraedd lle y gellir symud stoc os bydd rhagolygon yn darogan tywydd garw?
- A yw'ch adeiladau yn ddiogel ac wedi'u diogelu'n ddigonol rhag y tywydd?
- A oes cynllun ar waith i sicrhau bod modd cyrraedd eich fferm os ceir iâ ac eira?
- A oes digon o gyflenwadau o halen/graeon i gadw ffyrdd i mewn ac allan ar agor?
- A oes gennych gyflenwad wrth gefn o drydan megis generadur?

Mae nifer mawr o ffermwyr naill ai'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol ar ffermydd yng Nghymru bob blwyddyn felly mae'n bwysig bod iechyd a diogelwch yn cael blaenoriaeth. Gellir cael cyngor ar asesiadau risg ar

wefan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
www.hse.gov.uk/agriculture

Ffynonellau pellach o gyngor / gwybodaeth:

- Llywodraeth Cymru – Cyngor ar dywydd garw
- Llywodraeth Cymru – Lles anifeiliaid
- The Met Office – Get Ready for winter
- Cyfoeth Naturiol Cymru – [Rhybudd Llifogydd](#)

